COVID-19 Update: 3rd July
Welcome to the last COVID-19 update of the week from Cardiff Council, covering: reminding people that littering is not acceptable; schools receive positive feedback after first week of reopening; and our Cleansing Team's generous donation to the NHS, which turns 72 on Sunday.

Cardiff Council is reminding people that littering is not acceptable

From Monday, we will see a significant change in lockdown rules as the 'stay local' rule is lifted.

With many people still furloughed or working from home and with more non-essential shops open, Cardiff is set to welcome an increased number of visitors to the city to make the most of the new rules after weeks of restrictions.

However, we want to remind all visitors that Cardiff does not tolerate littering.

People must take responsibility for their own waste. If the litter bin is full, please take your litter home with you to dispose of correctly.

Our advice is:

- Find a bin for your litter if you're in a public place
- Take your rubbish home if you can't find a bin or if the bin is full
- BBQs in public spaces aren't currently advised by the Government, but our advice pre-lockdown was that they should be left on the concrete, near to bins for collection. They shouldn't be left on the grass or placed inside bins as this is a fire hazard

The pandemic is not over and the council is using the resources available to us to ensure we can deliver the best possible services for the residents of Cardiff.

Please remember to take your litter home with you or dispose of it correctly. You could face a fine of £100 for littering.

Find out more here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/waste-education-and-enforcement/littering/Pages/default.aspx

'Thrilled to be back and smiles all around'; Cardiff schools receive positive feedback after first week of reopening

Schools from across Cardiff have been praised this week as they reopened their doors to welcome pupils back to the classroom for the first time since March.

Every one of Cardiff's primary, secondary and special schools reopened from Monday 29, June so that children and young people could 'check in, catch up and prepare', the approach set out by Welsh Government.

With social distancing measures in place including a third of pupils in at any one time and staggered start and finish times, schools looked different, but feedback has been that children couldn't wait to get back again and Headteachers and their staff were delighted for them return.

To help assist parents and pupils returning to school, a series of Frequently Asked Questions has been published on the Council's website, providing answers on a range of topics, including health and safety, the curriculum and childcare.

Click here to view the FAQS, which are also available in several different languages:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Schools-and-learning/Schools/FAQ-for-parents-and-pupils/Pages/default.aspx

The Council has also produced a child friendly version of the FAQS, which can be found here: https://www.childfriendlycardiff.co.uk/schools/school-restart-information-for-children-and-young-people/

Some positive comments from pupils, parents and Headteachers across the city include:

Wil Howlett, Headteacher Albany Primary School: "This week we have really enjoyed welcoming our children and families back to Albany. It has been great to see all the children come into school smiling and enjoying their day in their new class bubbles. We have been very proud of how well the children have listened and followed the new rules and routines to make the school safe. The key message has been that whilst things may look different we are still the same and to keep smiling. Thank you to the children, families and staff for a fantastic first week back at Albany Primary School."

Jessica Grundy, parent at Danescout Primary School: "We were greeted at the gate by my daughter's head and teachers and she happily went in, following social distancing markers on her way. When I collected her she told me what a great day she had and can't wait to go back again."

Sian Burt, Deputy Headteacher at Howardian Primary: "The children who returned to school this week have been absolutely thrilled to come back, their excitement has blown us away! We have been doing lots of wellbeing activities and as much outdoor learning as possible, including street art, collage, bug hunts, bike races, making and flying paper planes, designing obstacle courses, making 'worry dolls', treasure hunts, yoga, dancing and singing."

Liz Roberts, parent from Rhiwbeina Primary School: "The school made a huge effort to ensure children were welcomed back in a way that was safe for everyone. My daughter loved her first day back and the teachers were brilliant at making sure they all had a happy day, despite very different circumstances."

Rachel Woodward, Headteacher at St Alban's Primary School: "It has been wonderful catching up with the children this week. They have had fun filled days with their friends, explored their emotions through natural art, created a reflective lockdown branch, revised ICT skills to support thei home learning and finished with a relaxing art session. It was lovely to see the children leaving school with huge smiles on their faces and looking forward to returning next week!"

Francesca Williams, parent at Hywel Dda Primary School said: "Fantastic first day back in school. The school were highly organised and very efficient. My daughter thoroughly enjoyed herself and can't wait for next week. A great transition to normality."

Jonathan Keohane, Headteacher at Roath Park Primary School: "It has been amazing this week to get all of our Roath Park family "home" after 14 long weeks. The old building has been brought back to life with laughter and enjoyment - the type that only comes from the energy of children."

Karen Brown, Headteacher from Millbank Primary School: "We were thrilled to welcome back so many of our pupils through this week, with 81% attending to join their bubble once through the week. This was fabulous! Having our road closed by Cardiff Council was a massive help as well, and earned us a lot of very positive comments from residents in the street."

Mari Phillips, Headteacher Ysgol Y Berllan Deg: "It has been fantastic to see pupils and parents once again. It was a pleasure to walk around the school and feel the staff and the pupils' happiness and excitement of being back in their familiar environment."

Chris Newcombe, Headteacher Ysgol Gymraeg Pwll Coch: "I have been delighted to welcome some of our pupils back to school this week in small nests. It has been fantastic to see their happy, smiley faces as they meet their friends and teachers for the first time in months!"

Rhian Lundrigan, Executive Headteacher Glan yr Afon and Bryn Hafod Primary School: "What a wonderful week we've had at both schools in The Rainbow Federation. We have created a safe, child friendly site across both schools, using hearts to ensure that staff and pupils adhere to social distancing in and around the site.

“Stand on a Heart, Stay 2 metres apart has been our motto since Monday. It has been such a positive week for staff and pupils. All staff have planned fun activities for the bubbles, focussing on well-being. All the planning and re planning over the last 3 weeks has all been worth it to see lots of smiling faces, so excited to see their friends and peers. We are looking forward to seeing even more pupils over the next three weeks at Glan yr Afon and Bryn Hafod Primary School”.

Cleansing Team’s generous donation to NHS Staff

NHS staff at the University Hospital of Wales have been rewarded for working tirelessly against the Coronavirus pandemic with a generous donation from our colleagues in the Cleansing Team.

The team, based at Millicent Street, has collected £745 to purchase a number of items – from coffee and cola to snacks and sugar.

The Cleansing Team said: “We, the staff based at the Cardiff Council Cleansing Department at Millicent Street depot on the morning and afternoon shift would just like to say a big thank you to all the staff at the University Hospital of Wales who have helped tirelessly through these hard times we have been experiencing over the past few months”.

The goodies have now been delivered to the hospital to some very grateful NHS staff.

Thanks all, for all your hard work!

Happy 72nd Birthday to the NHS
At 5pm on Sunday, join the nation-wide clap to mark the occasion and to say #ThankYouTogether to our amazing keyworkers and communities who have helped and supported us through these challenging times.

Tomorrow evening, national landmarks will be lit up blue as part of a collective memorial across the country on the eve of the birthday

We will be lighting up St David’s Hall and the Cardiff Bay Barrage sails as a mark of respect.

You can join in too by putting a light in your window.

Find out more here:
https://together.org.uk

Diweddariad COVID-19: 3 Gorffennaf
Croeso i ddiweddariad COVID-19 olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: atgoffa pobl nad yw gollwng sbwriel yn dderbyniol; ysgolion yn derbyn adborth cadarnhaol ar ôl yr wythnos gyntaf o ailagor; a rhodd hael y Tîm Glanhau i y GIG, 72 ar ddydd Sul.

Mae Cyngor Caerdydd yn atgoffa pobl nad yw gollwng sbwriel yn dderbyniol

O ddydd Llun, mae’n gwelwn newid mawr yn y cyfyngiadau cloi wrth i’r rheol ‘aros yn lleol’ gael ei chodi.

Gyda chymaint o bobl ar gyfnod ffyrlo neu’n gweithio gartref a mwy o siopau nad ydynt yn rhai hanfodol yn agor, mae disgwyl i Gaerdydd groesawu nifer gynyddol o ymwelwyr yn y ddinas er mwyn gwneud y mwyaf o’r rheolau newydd wedi wythnosau o gyfyngiadau.

Fodd bynnag, rydym am atgoffa pob ymwelydd nad yw Caerdydd yn goddef sbwriela.

Rhaid i bobl gymryd cyfrifoldeb dros eu gwastraff eu hunain. Os yw'r bin sbwriel yn llawn, ewch â'ch sbwriel adref gyda chi i gael gwared arno'n gywir.

Ein cyngor ni yw:

- Dod o hyd i bin neu bwynt ailgylchu ar gyfer eich sbwriel os ydych mewn man cyhoeddus
- Ewch â'ch sbwriel adref os na allwch ddod o hyd i fin neu os yw'r bin yn llawn
- Dydy'r Llywodraeth ddim yn argymell cael barbeciws mewn mannau cyhoeddus ar hy no bryd, ond ein cyngor cyn y cyfnod cloi oedd y dylid eu gadael nhw ar y concrit, wrth ymyl y biniau, i'w casglu. Ddylen nhw ddim cael eu gadael ar y glaswellt nac yn y biniau achos mae hyn yn berygl tân.

Nid yw'r pandemig ar ben ac mae'r Cyngor yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni i sicrhau y gallwn ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl ar gyfer trigolion Caerdydd.

Cofiwch fynd â'ch sbwriel adref neu gael gwared arno'n gywir. Gallech gael dirwy o £100 am adael sbwriel.

Dysgwch fwy yma:
https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/addysg-a-gorfodaeth-gwastraff/sbwriela/Pages/default.aspx

'Wrth fy modd yn ôl a phawb o gwmpas yn gwenu'; Ysgolion Caerdydd yn derbyn adborth cadarnhaol ar ôl yr wythnos gyntaf o ailagor

Canmolwyd ysgolion o bob rhan o Gaerdydd yr wythnos hon wrth iddynt ail-agor eu drysau i groesawu disgyblion yn ôl i'r ystafell ddosbarth am y tro cyntaf ers mis Mawrth.

Ailagorodd pob un o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Caerdydd Ddydd Llun 29 Mehefin er mwyn i blant a phobl ifanc allu 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi', yr ymagwedd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gan fod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn eu lle gyda thraean o ddisgyblion i mewn ar unrhyw adeg ac adegau dechrau a gorffen cyfnodol, roedd ysgolion yn edrych yn wahanol, ond cafwyd adborth nad oedd plant yn gallu aros i ddod yn ôl eto ac roedd Penaethiaid a'u staff wrth eu boddau yn eu gweld yn dychwelyd.

Mae Cwestiynau Cyffredin wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor i gynorthwyo rhieni a disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol gan roi atebion ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys iechyd a diogelwch, y cwricwlwm a gofal plant.

Cliciwch yma i weld y Cwestiynau Cyffredin, sydd hefyd ar gael mewn sawl iaith wahanol:
https://www.cardiff.gov.DU/cym/preswylydd/schools-and-Learning/ysgolion/FAQ-for-parents-and-pupils/tudalennau/default .DS

Mae'r Cyngor hefyd wedi cynhyrchu fersiwn o'r Cwestiynau Cyffredin sy'n addas i blant, sydd i'w gweld yma:
https://www.childfriendlycardiff.co.uk/cy/ysgolion/ail-agor-ysgolion-gwybodaeth-i-blant-a-phobl-ifanc/

Mae rhai sylwadau cadarnhaol gan ddisgyblion, rhieni a Phenaethiaid ar draws y ddinas yn cynnwys:

Wil Howlett, Pennaeth Ysgol Gynradd Albany: "Yr wythnos hon rydym wedi mwynhau croesawu ein plant a'n teuluoedd yn ôl i Albany. Mae wedi bod yn wych gweld yr holl blant yn dod i'r ysgol yn gwenu ac yn mwynhau eu diwrnod yn eu swigod dosbarth newydd. Rydym wedi bod yn falch iawn o ba mor dda mae'r plant wedi gwrando ac wedi dilyn y rheolau a'r drefn newydd er mwyn gwneud yr ysgol yn ddiogel. Er y gall pethau edrych yn wahanol, y neges allweddol yw ein bod ni'n dal yr un fath a chadw i wenu. Diolch i'r plant, teuluoedd a staff am wythnos gyntaf ffantastig yn ôl yn ysgol gynradd Albany."

Jessica Grundy, rhiant yn ysgol gynradd Danescout: "Cawsom ein cyfarch wrth y giât gan bennaeth ac athrawon fy merch ac roedd hi'n hapus i fynd i mewn, yn dilyn marcwyr cadw pellter cymdeithasol ar ei ffordd. Pan es i'w chasglu fe ddwedodd wrtha i am y diwrnod gwych gafodd hi a fedr hi ddim aros i fynd yn ôl eto."

Sian Burt, Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Howardian: "Mae'r plant a ddychwelodd i'r ysgol yr wythnos hon wedi gwirioni'n llwyr i ddod yn ôl, mae eu cyffro wedi ein syfrdanu ni! Rydym wedi bod yn gwneud llawer o weithgareddau llesiant a chymaint o ddysgu yn yr awyr agored ag sy'n bosibl, gan gynnwys celf stryd, collage, helfeydd chwilod, rasys beiciau, creu a thaflu awyrennau papur, cynllunio cyrsiau rhwystrau, gwneud 'doliau poeni', helfeydd trysor, ioga, dawnsio a chanu."

Liz Roberts, rhiant o Ysgol Gynradd Rhiwbeina: "Gwnaeth yr ysgol ymdrech enfawr i sicrhau bod plant yn cael eu croesawu'n ôl mewn ffordd a oedd yn ddiogel i bawb. Roedd fy merch wrth ei bodd ar ei diwrnod cyntaf yn ôl ac roedd yr athrawon yn wych am wneud yn siŵr eu bod i gyd wedi cael diwrnod hapus, er gwaethaf amgylchiadau gwahanol iawn."

Rachel Woodward, Pennaeth Ysgol Gynradd St Alban's: "Mae wedi bod yn wych yn dal i fyny gyda'r plant yr wythnos hon. Maent wedi cael diwrnodau llawn hwyl gyda'u ffrindiau, wedi archwilio'u hemosiynau trwy gelfyddyd naturiol, wedi creu cangen cyfnod y cloi myfyriol, wedi adolygu sgiliau TGCh i gefnogi eu dysgu yn y cartref a gorffen gyda sesiwn celf ymlaciol. Roedd yn hyfryd gweld y plant yn gadael yr ysgol gyda gwên fawr ar eu hwynebau ac yn edrych ymlaen at ddychwelyd yr wythnos nesaf!"

Dywedodd Francesca Williams, rhiant yn Ysgol Gynradd Hywel Dda: "Diwrnod cyntaf ffantastig yn ôl yn yr ysgol. Roedd yr ysgol yn drefnus iawn ac yn effeithlon iawn. Roedd fy merch wedi mwynhau ei hun yn arw ac yn methu aros tan yr wythnos nesaf. Pontio gwych i normalrwydd."

Jonathan Keohane, Pennaeth Ysgol Gynradd Parc y Rhath: "Mae wedi bod yn anhygoel yr wythnos yma i gael pob un o aelodau “teulu” Parc y Rhath nôl ar ôl 14 wythnos hir. Mae'r hen adeilad wedi dod yn ôl yn fyw drwy chwerthin a mwynhad - y math sydd ond yn dod o egni plant."

Karen Brown, Pennaeth Ysgol Gynradd Millbank: "Roeddem yn falch iawn o gael croesawu cymaint o'n disgyblion nôl drwy'r wythnos hon, gydag 81% yn mynychu i ymuno â'u swigen unwaith yn ystod yr wythnos. Roedd hyn yn wych! Roedd gweld ein ffordd yn cael ei gau gan Gyngor Caerdydd yn help enfawr hefyd, gan ennill llawer o sylwadau cadarnhaol iawn i ni gan breswylwyr y stryd."

Mari Phillips – Pennaeth Ysgol y Berllan Deg: "Mae wedi bod yn wych gweld disgyblion a rhieni unwaith eto. Roedd yn bleser cael cerdded o amgylch yr ysgol a theimlo hapusrwydd a chyffro'r staff a'r disgyblion o fod yn ôl yn eu hamgylchedd cyfarwydd."

Dywedodd Pennaeth Ysgol Gymraeg Pwll Coch, Mr Chris Newcombe: "Rwyf wedi bod wrth fy modd yn croesawu rhai o'n disgyblion yn ôl i'r ysgol yr wythnos hon mewn nythod bach. Mae wedi bod yn wych gweld eu hwynebau hapus, yn wên o glust i glust wrth iddynt gwrdd â'u ffrindiau a'u hathrawon am y tro cyntaf ers misoedd!"

Rhian Lundrigan, Pennaeth Gweithredol Ysgolion Cynradd Glan yr Afon a Bryn Hafod: "Dyna wythnos wych rydyn ni wedi'i chael yn y ddwy ysgol yn Ffederasiwn yr Enfys. Rydym wedi creu safle diogel sy'n addas i blant ar draws y ddwy ysgol, gan ddefnyddio calonnau i sicrhau bod staff a disgyblion yn cadw pellter cymdeithasol yn y safle ac ar ei hyd.

"Sefwch ar Galon, arhoswch 2 fetr ar wahân fu ein harwyddair ers dydd Llun. Bu'n wythnos mor gadarnhaol i'r staff a'r disgyblion. Mae'r holl staff wedi cynllunio gweithgareddau hwyliog ar gyfer y swigod, gan ganolbwyntio ar lesiant. Mae'r holl gynllunio ac ail gynllunio dros y 3 wythnos diwethaf wedi bod yn werth chweil i weld llawer o wynebau hapus, mor gyffrous i weld eu ffrindiau a'u cyfoedion. Rydym yn edrych ymlaen at weld mwy fyth o ddisgyblion dros y tair wythnos nesaf yn Ysgolion Cynradd Glan yr Afon a Bryn Hafod".

Rhodd hael y Tîm Glanhau i staff y GIG

Mae staff y GIG yn Ysbyty Athrofaol Cymru wedi cael eu gwobrwyo am weithio'n ddiflino yn erbyn pandemig coronafeirws gyda rhodd hael gan ein cydweithwyr yn y Tîm Glanhau.

Mae'r tîm, sydd wedi'i leoli yn Millicent Street, wedi casglu £745 i brynu nifer o eitemau – o goffi a cola i fyrbrydau a siwgr.

Dywedodd y Tîm Glanhau: "Hoffem ni, y staff yn Adran Lanhau Cyngor Caerdydd, depo Stryd Millicent ar y sifft yn y bore a'r prynhawn, ddiolch yn fawr iawn i'r holl staff yn Ysbyty Athrofaol Cymru sydd wedi helpu'n ddiflino yn ystod y cyfnodau anodd hyn rydym wedi bod yn eu profi dros y misoedd diwethaf".

Mae'r rhoddion bellach wedi'u cyflwyno i'r ysbyty i rai o staff y GIG sy'n ddiolchgar iawn.

Diolch o galon am eich gwaith caled!

Penblwydd Hapus yn 72 oed i'r GIG
Am 5pm dydd Sul, ymunwch â chlap y genedl gyfan i nodi'r achlysur ac i ddweud #DiolchGydanGilydd i'n gweithwyr allweddol a'n cymunedau anhygoel sydd wedi ein helpu a'n cefnogi drwy'r cyfnod heriol hwn.

Yfory heno, bydd tirnodau cenedlaethol yn cael eu goleuo'n las fel rhan o gofeb gyfunol ledled y wlad ar drothwy penblwydd.

Byddwn yn goleuo Neuadd Dewi Sant a hwyliau Morglawdd Bae Caerdydd fel arwydd o barch.

Gallwch chi ymuno hefyd drwy roi golau yn eich ffenestr.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
https://together.org.uk